Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD 2023**

**AT: YR AELOD O'R CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU RHITH-GYFARFOD **YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG** A GYNHELIR M **9.00 YB,** AR **DYDD IAU, 23AIN TACHWEDD, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Julie Owens** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224088** |
| **E-bost:** | **juowens@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr*, Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL** | |
| 2. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 HYDREF 2023** | 3 - 4 |
| 3. | **PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.** | 5 - 14 |
| 4. | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2022-23** | 15 - 62 |


*Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD LLUN 23AIN HYDREF 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. John - Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau
M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 10.15 yb

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29AIN MEDI 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Medi, 2023 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI AELODAU I'R FFORWM DERBYNIADAU ADDYSG

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar benodi Aelodau'r Fforwm Derbyniadau Addysg.

Yn unol â Pholisi Penodi Aelodau Fforwm Derbyniadau yr Awdurdod Lleol, mae gofyniad i adolygu aelodau craidd ac aelodau ysgolion y Fforwm bob 4 blynedd. Cynhaliwyd adolygiad aelodaeth llawn a chymeradwywyd yr enwebiadau'n ffurfiol ym mis Mai 2023. Cydnabuwyd ail-hysbysebu enwebiad ychwanegol ar gyfer Cynrychiolydd Cymunedol a chynhaliwyd ymarfer pellach i recriwtio Cynrychiolydd Cymunedol ychwanegol ym mis Mai 2023 a arweiniodd at un enwebiad.

Yn ogystal, ymddiswyddodd Pennaeth Ysgol Dyffryn Taf o'r Fforwm ym mis Mehefin 2023 a gohiriwyd ymarfer i geisio enwebiadau gan holl Benaethiaid Uwchradd Sir Gaerfyrddin tan ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2023 i sicrhau bod pob Pennaeth newydd yn eu swyddi, a arweiniodd hynny at un enwebiad yn cael ei dderbyn.

Cynrychiolwyr Prifathrawon – Ysgolion Cymunedol & Rheolaeth Wirfoddol:
Mr Dave Williams (Ysgol Q.E. High)

Cynrychiolwyr y Gymuned Lleol:
Mrs Janae Holliday (Cyngor Cymuned San Ishmael)

Er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau statudol mewn perthynas a llenwi swyddi gweigion ar y Fforwm Derbyniadau Addysg,

**PENDERFYNWYD penodi Mr Dave Williams a Mrs Janae Holliday yn aelodau o'r Fforwm Derbyniadau Addysg ar y telerau i'w cadarnhau gan y Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau.**

| ______________________________ | ________________ |
|---|---|
| **AELOD O'R CABINET** | **DYDDIAD** |

**23 TACHWEDD 2023**

| Yr Aelod o'r Cabinet: | Y Portffolio: |
|---|---|
| Y Cyng. Glynog Davies | Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg |

## PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

Bod yr Aelod o'r Cabinet yn penodi unigolion i'r llefydd gwag sydd wedi eu rhestru.

**Y Rhesymau:**

Cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol o ran llenwi llefydd gwag ar Gyrff Llywodraethol.

| Y Gyfarwyddiaeth | Swydd: | Rhif Ffôn: |
|---|---|---|
| | | 01267 246450 (G Morgans) |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth: | Cyfarwyddwr – Adran Addysg a Phlant | 01267 246448 |
| Gareth Morgans | | Cyfeiriad E-bost: |
| Awdur yr Adroddiad: | Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion | edgmorgans@sirgar.gov.uk |
| Tanja Neumayer-James | | TNeumayer-James@sirgar.gov.uk |

**Declaration of Personal Interest (if any): None**

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):N/A**

**DECISION MADE:**

**Signed:**

________________________________________DATE:________

CABINET MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES / NO |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |

# EXECUTIVE SUMMARY
# CABINET MEMBER EDUCATION, YOUNG PEOPLE AND THE WELSH LANGUAGE
# 23 NOVEMBER 2023

| APPOINTMENT OF LA GOVERNORS | |
|---|---|
| **BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT**<br>In accordance with the LA appointment policy for LA Governors, vacancies exist in certain schools and schedules of nomination for these vacancies are attached. Nominations were invited from Chairperson, Headteacher and Local Member(s) in the case of Primary Schools / the Member(s) who is/are governors of that school in the case of Secondary Schools.<br><br>LA Governors are appointed for 4 years and where the vacancy occurs as a result of an individual's term of office coming to an end, this is noted in the details for that particular person if he/she is seeking appointment. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Gareth Morgans Director – Department for Education & Children**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Gareth Morgans Director – Department for Education & Children**

**1. Scrutiny Committee - n/a**

**2. Local Member(s)** Relevant Local Members have been notified of received nominations and invited to submit additional nominations.

**3. Community / Town Council – n/a**

**4. Relevant Partners – n/a**

**5. Staff Side Representatives and other Organisations – n/a**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE.**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# APPOINTMENT OF LA GOVERNORS

***List for Consideration***
**23 November 2023**

| PRIMARY SCHOOL | NO. OF VACANCIES | NOMINATIONS<br><br>NAME AND ADDRESS | NOMINATED BY | DETAILS |
|---|---|---|---|---|
| **Please note: CCC's 'The Appointment of LA Governors' states that, 'All County Councillors [when elected] may stipulate on which school governing bodies they will sit, and their decision will take preference over 'non-elected' LA governors'.** | | | | |
| Abergwili | 2 | Mrs K Edwards | Mrs A Bowen-Price, Headteacher | 'Mrs Edwards has been a long serving governor at the school, having had her own children attend the school. She is an experienced governor and knows the school very well. It would be an asset for the governing body to have Mrs Edwards return as a Local Authority governor.'<br><br>Mrs Bowen-Price is seeking the re-appointment of Mrs Edwards. |
| Brynsierfel | 1<br>from 22 Nov 2023 | Mrs L Beer | Mrs Z Jermin-Jones, Headteacher | 'Mrs Beer has been very supportive of the school and has consistently been attending full GB and sub-committee meetings. I strongly believe that the support of Mrs Beer in the future will be of benefit to the pupils and staff of our school. Her experience and expertise are valuable to us.'<br><br>Mrs Jermin-Jones is seeking Mrs Beer's re-appointment. |
| | | Mrs K Nurse | Cllr. Sharen Davies and Cllr. Jason Hart, both governors on this GB | 'Mrs Nurse's children used to attend Ysgol Brynsierfel. Mrs Nurse speaks Welsh, she lives in the area and is also a Community Councillor for the Pemberton Ward. Mrs Nurse currently works as a TA in another school. She is fully committed to education and has the knowledge, skills and expertise, in improving standards within education. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mrs Nurse will be an asset to the school by contributing and sharing her ideas with the governing body.’ |
| Burry Port | 2 | Cllr. Michael Thomas<br>Democratic Services<br>County Hall<br>Carmarthen<br>SA31 1JP | n/a – elected member | Cllr. Michael Thomas is seeking appointment as LA Governor on the Governing Body of Burry Port School. |
| | | Ms K Richards | Application received through Governors for Schools.<br><br>Both the Chairperson and Headteacher are supportive of the application. | ‘I want to combine my professional expertise in delivering outcomes for school managements and in private education companies, the technical skills in strategic management and finance from my recent degrees with the strong interest in school governance that I have always had outside of work.<br>I am a motivated professional and want to gain experience in a board level decision making and make a difference to children’s education.<br>With wide ranging experience working in education as an English teacher, special needs teaching assistant, and early years teacher I have knowledge and experience of the managing of schools and education settings. I have extensive team work experience and of working collaboratively. I have a strong financial acumen and I am of surety that as a school governor on the board, that I will be able to effectively manage the school's organisational development, and promote its values and mission.<br>I have the necessary qualities of a respected governor such as excellent communication, interpersonal skills with the ability to listen and negotiating challenging topics. Excellent organisational skills and proficiency in other languages.’ |
| Cae’r Felin | 2 | Mr D Davies | Mr R Davies, | Reasons for the nomination: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Headteacher | • 'Experienced primary teacher;<br>• Has been Chair of the Governing body for several years;<br>• Expertise in education;<br>• Commitment to attend meetings and sub-committees;<br>• A desire to raise the standards of education within the School;<br>• Willingness to share skills and expertise for the benefit of the governing body.'<br><br>Mr R Davies is seeking Mr D Davies' re-appointment. |
| Cynwyl Elfed – Llanpumsaint Federation | 1 | Mrs L Cockroft | Mrs C Kelly, Headteacher | 'Mrs Cockroft is an important role in the community and to us as a school, as she is an experienced nurse, and we would benefit from her experiences in health and wellbeing, as she could use her wealth of experience to support the governors at Cynwyl Elfed and Llanpumsaint Schools.'<br><br>Mrs Cockroft currently serves on this GB as parent governor. |
| Gorslas | 1 | Mrs G Lewis | Mrs A Vaughan-Owen, Headteacher | 'I believe that Mrs Lewis would be an asset to our governing body with her knowledge of, and interest in, Gorslas community. Mrs Lewis has displayed a desire to help improve standards of education within the school and I feel that her personal skills will be a great support to us as a school.' |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llechyfedach-Tumble Federation | 3<br>from 22 Nov 2023 | Mrs A Price<br><br>Ms J Thomas<br><br>Mrs J Williams | Mrs N Thomas-Samuel, Headteacher | ‘Extremely effective as chairperson for a number of years, her experience is valuable.’<br><br>‘Ms Thomas and Mrs Williams are extremely supportive and active on behalf of the GB and very experienced by now!’<br><br>Mrs Thomas-Samuel is seeking the re-appointment of Mrs Price, Ms Thomas and Mrs Williams. |
| Myrddin | 1<br>from 23 Jan 2024 | Ms J Lewis | Mr J Parker, Headteacher | ‘Ms Lewis has acted as the vice-chair of governors at Myrddin CP School and has provided invaluable support to the school and the governing body during her first term as governor. Ms Lewis was nominated as vice-chair again on 5th October 2023.’<br><br>Mr Parker is seeking Ms Lewis’ re-appointment. |
| Nantgaredig | 2<br>from 23 Jan 2024 | Cllr. Mansel Charles<br>Democratic Services<br>County Hall<br>Carmarthen<br>SA31 1JP | n/a – elected member | Cllr. Mansel Charles is seeking re-appointment as LA Governor on the Governing Body of Nantgaredig School. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pembrey | 1 | Mr J H Jones | Cllr. Hugh Shepardson, Member of this GB<br><br>Nomination supported by Cllr. Michael Thomas. | ‘Mr Jones has been a long-standing Governor of Pembrey School and unfortunately had to relinquish his seat following the last County Council elections.<br><br>Mr Jones has acted as a valuable member of the Govering Body for many years serving on several internal committees, incl. appointment Committees of staff and Appraisal Panels of school staff. Prior to his retirement he worked with the Authority as a Planning Officer, and his local government knowledge has been an asset that has been of significant help to fellow governors.<br><br>The Governing body were disappointed when he had to relinquish his seat and thought so highly of him that they invited him to attend meetings of the Govering Body as an observer. He is therefore up to date with the work of the Governing Body, which will allow a seamless transfer back if the nomination is acceptable to the Cabinet Member.<br><br>I have spoken to the Chairman of Governors, Mr D Owens and he is also happy to support the nomination of Mr Jones.<br><br>I therefore have great pleasure in submitting the name of J H Jones to fill the pending LEA Governor vacancy at Pembrey School.’ |
| Pontyberem | 1 | Miss M Ff Thomas | Mrs D Davies Williams, Chairperson | ‘Miss Thomas is a past pupil of Pontyberem School. She was born and brought up in the village. Following studying at university, she practices as a solicitor in Carmarthenshire.’ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Prichard | 1 from 22nd Nov 2023 | Mrs C Pritchard | Mr E Davies, Headteacher | 'Mrs Pritchard has a wealth of knowledge of the education system, having been a governor for the past eight years. She is an active member of the local community where the school is located. As a qualified solicitor, her knowledge of the legal system has proven very beneficial to the school in the past.'<br><br>Mr Davies is seeking Mrs Pritchard's re-appointment. |
| Y Fro | 1 | Miss M Phillips-Rees | Mr R Thomas, Headteacher | 'Miss Phillips-Rees is a very good governor who has an educational background and in the past has helped raise standards of academic achievement, managed the budget effectively and has overseen the construction of the SDP and school self-evaluation processes.'<br><br>Mr Thomas is seeking Miss Phillips-Rees' re-appointment. |
| | | | | |

| SECONDARY SCHOOL | NO. OF VACANCIES | NOMINATIONS<br><br>NAME AND ADDRESS | NOMINATED BY | DETAILS |
|---|---|---|---|---|
| Bro Dinefwr | 1 | Cllr. Arwel Davies<br>Democratic Services<br>County Hall<br>Carmarthen<br>SA31 1JP | Cllr. Edward Thomas, LA Governor on this GB | Cllr. A. Davies is the elected member for a ward which is covered by Ysgol Bro Dinefwr. |
| Coedcae | 1 | Mrs K Bowen | Mrs T Senchal, Headteacher | 'Mrs Bowen has provided long-standing service as a member of the governing body, as a parent representative. During her time as a governor with us, Mrs Bowen has developed a wealth of knowledge and expertise, both in terms of school governance more generally and in relation to the strengths, areas for development and priorities of our individual school. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | She has served on a number of different committees, representing the governors in some very challenging situations. Mrs Bowen was a long-standing member of the finance and staffing sub-committee, playing a key role in leading the school out of a budget deficit situation 2014-2018. Given the impending financial difficulties forecast for the LA and for schools, and concomitant pressure on our school, the governing body of Coedcae School very much feels that it would be in the best interests of our school to retain the services of Mrs Bowen as a school governor.’ |
| Emlyn | 1<br>from 1st Feb 2024 | Cllr. Hazel Evans<br>Glynderw<br>Ebenezer Street<br>Newcastle Emlyn<br>SA38 9EH | Mrs M Webley, Chairperson | ‘I have known Hazel Evans for many years as a valued governor at Ysgol Gyfun Emlyn. She contributes regularly to discussion at full GB meetings and is the Vice-Chair of the Staffing & Resources Sub-Committee. She has extensive knowledge of budgeting and finance and her specialist interest is in provision for the Welsh language. She is the Link Governor for Welsh and keeps regular contact with the Welsh Department and gives the GB feedback on the delivery of the Welsh curriculum. She frequently assists on GB selection panels for the appointment of new staff. With her role as our local County Councillor, she offers a wealth of experience and knowledge of other matters that are a great benefit to the school and the governing body. I fully support her application to renew her term of office.’<br><br>Mrs Webley is seeking the re-appointment of Cllr. Evans. |
| | | | | |
| **SPECIAL SCHOOL** | **NO. OF VACANCIES** | **NOMINATIONS**<br><br>**NAME AND ADDRESS** | **NOMINATED BY** | **DETAILS** |
| n/a | | | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**23 Tachwedd 2023**

| Yr Aelod o'r Cabinet | Y Portffolio: |
|---|---|
| Y Cyng. Glynog Davies | Addysg a'r Iaith Gymraeg |

# Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg 2022-23

## Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:

1. I dderbyn yr adroddiad blynyddol ar yr iaith Gymraeg a chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Iaith Gymraeg am y cyfnod 2022-23.

## Y Rhesymau:

Mae'n gyfrifoldeb statudol i'r Awdurdod i weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Fel rhan o'r Safonau, mae'n rhaid i ni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu'r gwaith gweithredu.

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth**<br>Prif Weithredwr | **Swydd:** | **Rhif Ffôn:** |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>Jason Jones | Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol | **Cyfeiriad E-bost:**<br>JaJones@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Gwyneth Ayers | Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth | GAyers@sirgar.gov.uk |
| Llinos Evans | Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu | LlinEvans@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Declaration of Personal Interest (if any):**
None

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):**
N/A
(If the answer is yes exact details are to be provided below:)

**DECISION MADE:**

**Signed:**

______________________________________________DATE:________
CABINET MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES / NO |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# EXECUTIVE SUMMARY
## 23 November 2023

# Annual Report on the Welsh Language
# 2022-23

This Annual Report has been produced in order to comply with the Welsh Language Commissioner's monitoring arrangements. The Welsh Language Commissioner gave Carmarthenshire County Council a compliance notice regarding the Welsh Language Standards Regulations on 30 September 2015 which required CCC to comply with most of the standards by 31 March 2016. The Welsh Language (Wales) Measure 2011 is the legislation that created the Welsh language standards.

Welsh language standards promote and facilitate the Welsh language and ensure that the Welsh language is not treated less favourably than the English language in Wales.

The Welsh language Standards aim to:
- Provide clarity to organisations on their duties on the Welsh language in terms of Service delivery, Policy making, and internal operations, as well as their duties to promote the Welsh language,
- Provide clarity to Welsh speakers on the services they can expect to receive in Welsh
- Ensure more consistency of Welsh language services and improve their quality.

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | YES<br>Annual Repot 2022-23 |
|---|---|

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Jason Jones, Head of Regeneraiton, Policy & Digitial**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YES** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities**

The Compliance Notice received from the Welsh Language Commissioner on 30 September 2015 required the Authority to comply with a new set of Standards by 31 March 2016**.**

**2. Legal**

The Welsh Language Standards Regulations 2015 came into force on 31 March 2015. These Regulations replace the responsibilities placed on Carmarthenshire County Council under the Welsh Language Act 1993 and were imposed on the Authority on 31 March 2016.

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Jason Jones, Head of Regeneration, Policy & Digital**

**1. Scrutiny Committee**

**N/A**

**2.Local Member(s)**

**N/A**

**3.Community / Town Council**

**N/A**

**4.Relevant Partners**

**N/A**

**5.Staff Side Representatives and other Organisations**

**N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Welsh Language (Wales) Measure 2011 | | Welsh version<br>http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf<br>English version<br>http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_en.pdf |
| Carmarthenshire County Council's Welsh Language Standards – Compliance Notice | | Welsh version<br>hysbysiad-cydymffurfio44-cyngor-sir-gâr.pdf (gov.wales)<br>English version<br>compiance-notice44-carmarthenshire-county-council.pdf (gov.wales) |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

# 2022-23



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

Cyflwyniad ………………………………………………………..……….. 3

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ……………………….……….…..... 5

Astudiaeth Achos 1: Marchnata a chyfathrebu.....……………… 14

Safonau Gweithredu .........................….……………….………. 19

Astudiaeth Achos 2: Hyfforddiant CAP yn *Teams* …………... 23

Safonau Llunio Polisi ………………………………………………..... 26

Astudiaeth Achos 3: Pentre Awel ....…………………………….. 29

Safonau Hybu .........……………………………………………… 32

Astudiaeth Achos 4: Her yr Urdd ........................................ 35

Cwynion a dderbyniwyd ………………………………………….. 37

Dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ………… 38

Sgiliau Iaith ………………………………………………………... 41



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2022-23, sef fy mlwyddyn gyfan gyntaf yn fy rôl fel Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg ar ran y Cyngor.
Dyma seithfed flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg ac er gwaethaf heriau cyllidol mae'r sector gyhoeddus yn ei wynebu llwyddwyd i barhau i gynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau i'n trigolion yn Gymraeg. Rydym yn falch o'n hymdrechion parhaus i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg yn fewnol, mewn meysydd polisi amrywiol ac o dan gyfrifoldebau ein Safonau Hybu.

Yn dilyn yr Etholiadau Lleol, ail-sefydlwyd Panel Ymgynghorol y Gymraeg, ac fe gyfarfu'r Panel traws-bleidiol hwn ddwywaith, yn yr Hydref ac ym mis Mawrth. Roedd cyfarfod Mawrth yn gyfle gwych i ni gael cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar ddata Cyfrifiad 2021 ac i gnoi cil ar y realiti anodd a'r heriau sydd o'n blaenau yn dilyn y canlyniadau siomedig i Sir Gâr. Sefydlwyd yn ogystal cyfarfodydd misol rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Materion Gwledig, Pennaeth Gwasanaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol, Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaeth a fi, i drafod ymhellach y gostyngiad yn siaradwyr y Gymraeg yn Sir Gâr a rydym wedi cwrdd gydag ystod o ran-ddeiliaid i drafod a chynllunio'r camau nesaf. Mae'r wir nodi ei fod yn amser newid gêr i fynd i'r afael â'r sefyllfa a byddwn yn gwneud yr hyn gallwn trwy weithio gyda'n partneriaid i wneud hynny dros y cyfnod sydd i ddod.

Bu'r cyfieithwyr ar y pryd mewnol yn hynod o brysur yn ystod y flwyddyn gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg ar lawr y siambr ac ar lein, ac ychwanegwyd y cyfarfodydd hybrid i'r arfaeth eleni gan integreiddio cyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus i'r platfform hwn hefyd. Rydym yn hynod falch o'r modd rhagweithiol ac effeithiol y mae'r Cyngor wedi llwyddo i annog defnydd y Gymraeg yn ein cyfarfodydd gan addasu i'r holl blatfformau gwahanol, ac mae gwaith diflino'r Uned Gyfieithu a'r Is-adran TG yn glodwiw.
Dangoswyd safonau uchel, fel arfer, o safbwynt ein holl waith marchnata ac fe gafodd ein gwaith cyfathrebu ei ddarparu yn unol â'r Safonau yn ddi-ffael, gan gynnwys y negeseuon ar draws ein platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bu'n flwyddyn brysur dros ben o safbwynt hybu'r Gymraeg eleni, gyda'r holl waith o adrodd ar gyfnod pum mlynedd gyntaf y Strategaeth Hybu, a llunio'r Strategaeth newydd. Gwnaed gwaith aruthrol yn cydlynu mewnbwn partneriaid ac yn cydgynllunio drwy'r Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg y mae'r Cyngor hefyd yn arwain. Cawsom elwa o waith gwirfoddol Meri Huws yn cadeirio'r Fforwm yn ddeheuig am flwyddyn arall a bydd ffrwyth yr holl waith yma'n ymddangos yn 2023/24, gyda Strategaeth newydd a pharhad ar yr holl waith gweithredu.

Dynodwyd cyllid gan y Cyngor hefyd i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Sir Gâr. Er gwaetha'r heriau cyllidol, teimlwyd ei fod yn fuddsoddiad pwysig i hyrwyddo'r Gymraeg, a chynnal cyfleoedd gwych i'n pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i godi statws y Gymraeg fel iaith fyw yn y Sir.  Defnyddiwyd pob cyfle i hyrwyddo'r digwyddiad yn sirol ac i sicrhau ymwneud gymaint o'n pobl ifanc a phosib yng ngweithgareddau'r ŵyl. Cydweithiodd nifer o adrannau'r Cyngor gyda chyrff y Fforwm i gefnogi ysgolion i gystadlu yn yr Eisteddfod, gan ganolbwyntio ar y rhai hynny nad ydynt fel arfer yn cystadlu. Bu'r ymateb yn gadarnhaol dros ben gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg y Sir yn perchnogi'r cyfle i ymfalchïo yn y Gymraeg a'i

ddefnyddio. Llwyddwyd i gefnogi 90% o ysgolion Sir Gâr i gystadlu yn Eisteddfod 2023, oedd â'i rowndiau lleol a rhanbarthol yn ystod 2022-23 wrth reswm.

Bu mwy o newidiadau i'r gweithlu gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn dychwelyd i ryw raddau i'r swyddfeydd, a hynny'n esgor ar fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol. Parhawyd, fodd bynnag, gyda'r *Clwb Clebran* misol i annog pobl i neilltuo awr y mis i glywed a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, ar lein.

Mae dau brosiect penodol arall yn werth eu cynnwys yn y cyflwyniad hwn, sef yr ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cynlluniau economaidd sylweddol, a'r cychwyn ar y gwaith o weinyddu fwyfwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddau brosiect yma'n pwysleisio ein huchelgais, fel Cyngor, i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ein holl waith. Ceir gwybodaeth bellach amdanynt yng nghorff yr adroddiad.
Edrychaf ymlaen at flwyddyn prysur a llawn arall o hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydweithio gyda'n holl partneriaid i wneud cynnydd yn Sir Gâr.

**Y Cynghorydd Glynog Davies**
**Aelod Cabinet dros Addysgu a'r iaith Gymraeg**
**Cyngor Sir Gâr**

## Cydymffurfio â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

**Sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol**

Fe luniom Gynllun Cydymffurfio newydd yn ystod y flwyddyn sydd yn ddogfen fwy sefydlog na’r Cynllun Gweithredu blaenorol. Mae’r Cynllun yn nodi’r gweithdrefnau cydymffurfio sydd yn eu lle’n barhaol yn hytrach na nodi camau gweithredu blynyddol. Mae’n nodi sut mae’r Cyngor yn cydymffurfio gyda’r Safonau, sut rydym yn goruchwylio’r gydymffurfiaeth ac yn hybu a hwyluso defnydd ein gwasanaethau. Fe fydd yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer sicrhau hirhoedledd a chysondeb ein gweithdrefnau cydymffurfio, ac mae wedi ei osod ar ein gwefan i egluro'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl gan y Cyngor o ran cydymffurfiaeth.

Mae’r ddarpariaeth o ohebu, darparu gwasanaeth ffôn, tudalennau gwe, y fewnrwyd, cylchlythyron staff a’r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn unol â’r Safonau yn gadarn yng ngweithrediadau’r Cyngor ers blynyddoedd bellach. Mae’r swyddi rheng flaen yn dal i gael eu hysbysebu ar lefel 3, sy’n gofyn am ruglder llafar. Mae’r gwasanaeth rheng flaen a ddarperir gan ein Canolfan Gyswllt wedi cynyddu mewn prysurdeb ac am y tro cyntaf eleni, oherwydd problemau recriwtio, rydym wedi hysbysebu swyddi ar lefel is o ruglder. Am y tro cyntaf felly, rydym wedi gorfod addasu ein gweithdrefnau er mwyn cyrraedd y galw wrth sicrhau na fyddai’n effeithio ar y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.

Lluniwyd Polisi cyfryngau cymdeithasol newydd eleni ac ynddi nodwyd:

> 5.13 Mae’n rhaid i chi sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau’n cydymffurfio â Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n berthnasol i holl weithwyr y Cyngor a chyfathrebiadau a wneir ar ran y Cyngor. Rhaid i bob cyfathrebiad fod yn ddwyieithog. Er mwyn eich diogelu chi a’ch adran mae’n bwysig eich bod yn nodi y gall unrhyw fethiant i ddilyn y safonau a nodir yn y rheoliadau arwain at ddirwy sylweddol o hyd at £5,000 y bydd yr adran y mae’r achos o dorri’r safon yn deillio ohoni’n gyfrifol amdani. Bydd y canllawiau a’r hyfforddiant angenrheidiol mewn perthynas â’r safonau ymarfer sy’n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â’r rheoliadau’n cael eu darparu gan y Tîm Marchnata a’r Cyfryngau.

Eto, mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaol a chyson ar draws adrannau’r Cyngor o safbwynt cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cais gan y Comisiynydd am dystiolaeth ar ein cydymffurfiaeth â’r Safonau. Fe gwblhaom holiadur hunanasesu gan ddarparu 28 tudalen o enghreifftiau o ystod ein darpariaeth: o ffurflenni, hysbysiadau swyddogol, geiriad mewn polisïau, lluniau o beiriannau hunan wasanaeth i’n gwaith marchnata. Nodwyd sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth i 17 o’r Safonau a Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth i 7 o’r Safonau. Doedd dim angen gosod sicrwydd is na hynny i ddim un o’r Safonau.

Cafwyd cais hefyd am dystiolaeth ar ein harferion cyfredol o ran hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a'r data sydd gennym ar ddefnydd gwasanaethau Cymraeg. Darparwyd y wybodaeth yn unol â’r cais ac er ein bod yn gallu sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau, fe gydnabyddom hefyd y gallwn fod yn gwneud mwy i hyrwyddo i staff y dogfennau a’r gwasanaethau sydd ar gael iddynt o dan y Safonau gweithredu. Yn yr un modd, eglurwyd fod


gennym fynediad at lawer iawn o ddata yn ymwneud â defnydd o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydyw wedi bod yn flaenoriaeth i ni wneud defnydd ohonynt hyd yma.


Ni chafwyd Adroddiad Sicrwydd 2022-23 ar adeg llunio'r Adroddiad hwn, nac ychwaith adborth i'r hunanasesiadau yn ystod y flwyddyn, ond ni dderbyniwyd unrhyw adborth negyddol ychwaith gan Swyddfa'r Comisiynydd.

**Ymgynghori: Gohebu, dogfennau ymgynghori a chyfarfodydd: Safonau 4-7, 27-29, 44.**

Cynhaliwyd 22 o ymgynghoriadau eleni ac fe weinyddwyd ac fe hysbysebwyd y cyfan yn gwbl ddwyieithog.


Cwblhawyd Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn. Arweiniwyd y gwaith gan y Cyngor Sir ac roedd yn enghraifft dda o gyflawni gwasanaethau gohebu, ffurflenni, gwaith marchnata a chynnal cyfarfodydd yn unol â'r Safonau. Cafwyd hysbysrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, yng nghylchlythyron staff a datganiadau i'r wasg yn unol â'r Safonau, oedd yn annog cyfranogiad a mewnbwn gan y cyhoedd.




Enghraifft o sleidiau cyflwyniad dwyieithog i'r Cyngor Gwirfoddol

Yn ogystal â hynny, ymgynghorwyd ar y Cynllun mewn digwyddiadau penodol: yn Niwrnod Hawliau Gofalwyr ac yn Nigwyddiad Pride er enghraifft. Gwnaed hynny'n ddwyieithog gan annog cyfranogiad yn Gymraeg ar bob cyfle.



Llun o ddigwyddiad ymgynghori creadigol, dwyieithog.

**Cyfarfodydd: Safonau 32 a 33**

Wedi defnyddio platfform *Zoom* am gyfnod sylweddol wedi'r pandemig ar gyfer cynnal cyfarfodydd gyda chyfieithu ar y pryd, trosglwyddwyd i *Teams* pan ddaeth ar gael. Lluniwyd canllaw/hyfforddiant ar gyfer staff oedd yn benodol i Gyngor Sir Gâr, yn egluro'r camau i gymryd wrth drefnu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Fe ymhelaethir ar hwn yn Astudiaeth Achos 2, o dan y Safonau Gweithredu.

**Digwyddiadau Cyhoeddus: Safon 35 a 36**

O ran digwyddiadau cyhoeddus, cafwyd nifer o enghreifftiau o arfer dda o safbwynt gweithredu yn unol â'r Safonau. Trefnwyd digwyddiad 'Heneiddio'n Dda' yn yr Ardd Fotaneg yn gwbl ddwyieithog o ran marchnata a gweinyddu'r digwyddiad. Gwnaed pob ymdrech yn ystod y digwyddiad i annog defnydd y Gymraeg yn ogystal, drwy drefnu siaradwr gwadd oedd yn cyflwyno'n bennaf yn Gymraeg a thrwy sicrhau staff dwyieithog wrth gofrestru yn y fynedfa, yn ogystal ag ar y stondinau gwybodaeth. Sicrhawyd presenoldeb cyrff oedd yn gweithio'n benodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal.

Yn yr un modd cynhaliwyd digwyddiad gyrfaoedd ar gyfer cyn aelodau'r Lluoedd Arfog. Gwnaed ymdrech benodol i gyfarch mynychwyr yn Gymraeg wrth gofrestru ac fe gafwyd nifer

o enghreifftiau o unigolion oedd yn siaradwyr Cymraeg. Cafwyd siaradwr gwadd hefyd oedd yn annerch yn Gymraeg wrth lofnodi'r Cyfamod, a oedd hefyd yn gwbl ddwyieithog.

Yr enghraifft olaf o arfer dda o ran cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn unol â'r Safonau oedd y digwyddiad cydweithio i wyntyllu syniadau ynglŷn â'r costau byw cynyddol. Mynychodd 100 o unigolion o gyrff o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ac fe gafwyd cyflwyniadau a grwpiau trafod cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r digwyddiad.

**Cyfathrebu: Deunyddiau cyhoeddusrwydd neu wybodaeth, a gwefan. Safon 37-38, 43, 46-49, 52-58.**


**Cynllun Datblygu Lleol**

Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'n ofynnol inni sicrhau bod ei gynnwys yn parhau i fod yn gyfoes a'n bod yn gwneud newidiadau lle bo angen. Mae hyn yn adlewyrchu gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sef bod cynnwys y CDLl yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Un o'r prif ffyrdd o wneud hyn yw trwy'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a deall lle mae'r Cynllun yn perfformio'n dda a lle nad yw, o bosibl, yn llwyddo fel y bwriedir.

Cafodd cynnwys yr Adroddiad Adolygu ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ar 10 Ionawr 2018 a phenderfynwyd dechrau ar baratoi CDLl Diwygiedig 2018-2033. Mae gwaith aruthrol wedi ei wneud o ran llunio dogfennau a pholisïau i gyd-fynd â'r Cynllun ac ymgynghori arnynt. Mae'r cyfan wedi eu llunio'n ddwyieithog ac wedi ymddangos ar yr un pryd ac i'r un ansawdd ar ein gwefan.



Sgrin lun o'r holl bapurau sy'n ymddangos ar ein gwefan yn Gymraeg fel rhan o broses y CDLL




Sgrin lun o bapurau pwnc y CDLL ar y wefan


Gwnaed gwaith penodol a helaeth ar asesu effaith y Cynllun ar y Gymraeg, ac fe sonnir am hynny isod (Safonau Polisi).

Roedd yr holl waith marchnata a wnaed wrth groesawi Taith Merched Beiciau Prydain i Sir Gaerfyrddin yn enghraifft o waith marchnata oedd yn gadarn yn unol â'r Safonau. Defnyddiwyd arwyddion dwyieithog dros y Sir wrth farchnata'r digwyddiad ac yna wrth gynnal y digwyddiad. Roedd y gwaith gyda'r cyfryngau yn ddwyieithog a'r digwyddiad wedi ei gyhoeddi yn ddwyieithog ym Mharc Pen-bre.




Enghraifft o graffeg dwyieithog ar ffensys y ras


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council




Sgrin lun o waith marchnata Cymraeg y daith ar ein gwefan

Yn yr un modd, mae ein hymgyrchoedd wedi cydymffurfio â'r Safonau yn gwbl gadarn. Cynhaliwyd ymgyrch o gyhoeddusrwydd i'r gweithdrefnau casglu sbwriel newydd. Roedd yr holl ymgyrch yn gwbl ddwyieithog ac fe welir manylder yr ymgyrch yn Astudiaeth Achos 1.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Hyrwyddo gwasanaethau Safon 81**

Fe wnaed gwaith eleni ar hyrwyddo'r Cyngor fel gweithle dwyieithog.


Gan fod y Comisiynydd yn ffocysu ar hawliau pobl ifanc ar ddiwrnod hawliau'r Gymraeg eleni, fe drefnon ni gystadleuaeth i bobl ifanc a fyddai'n hyrwyddo'r cyfleoedd iddynt ymgeisio am swydd drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r Cyngor a defnyddio'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Crëwyd cerdyn post a chystadleuaeth i ennill het fwced Cymru ac fe'i hanfonwyd allan i bob chweched dosbarth yn y Sir.



Cerdyn post electroneg a anfonwyd at ysgolion y Sir

Roedd hwn yn gyfle i hyrwyddo gwefan ac adnoddau ‘Profi Menter Gorllewin Sir Gâr’ yn ogystal. Roedd yna broblemau fodd bynnag ynglŷn â dosbarthu’r wybodaeth. Nid oedd y neges wedi cyrraedd y bobl ifanc yn y fformat mwyaf hygyrch. Roedd yr ymateb yn isel ac fe fyddwn yn chwilio am gyfleoedd eraill i ddefnyddio’r cerdyn post yn y dyfodol, mewn digwyddiadau yn hytrach na drwy e-bost.

Rydym wedi creu ffurflen gais newydd ar gyfer profiad gwaith eleni yn ogystal, ac wedi sicrhau ein bod yn gofyn am ddewis iaith ymgeiswyr er mwyn medru trefnu eu bod yn cael gweithio i raddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond erys tipyn o waith yn y maes hwn o ran hyrwyddo’r Cyngor fel cyflogwr sy’n gwerthfawrogi sgiliau dwyieithog ac fe fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy’r Strategaeth Hybu.



Sgrin lun o ffurflen ceisio am brofiad gwaith o’r wefan

Parhawyd i hyrwyddo sioeau theatr Cymraeg Theatrau Sir Gâr. Eleni, defnyddiwyd y fewnrwyd i roi gostyngiad ar ddigwyddiadau fel y ddrama ‘Tylwyth’, gan hyrwyddo ein gwasanaeth theatrau Cymraeg i staff yn fewnol.



Sgrin lun o gynnig arbennig i staff i weld sioe Gymraeg yn y theatr




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus: Safon 87**

Darparwyd recordiadau sain o gyhoeddiadau cyffredin ar gyfer ein canolfannau hamdden, er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o hyfforddi staff i gyhoeddi'n ddwyieithog. Eto, bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chywirdeb wrth ddarparu cyhoeddiadau yn ein mannau cyhoeddus yn unol â'r Safonau.

**Darparu Cyrsiau Addysg: Safon 84**

Bu staff Actif Sir Gâr, ein gwasanaethau hamdden, yn rhedeg rhaglen newydd i ysgolion er mwyn datblygu llythrennedd corfforol mewn plant. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 20 o weithdai mewn ysgolion, ac roedd 17 ohonynt yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Defnyddiwyd adnoddau hyfforddi Chwaraeon Cymru, oedd yn ddwyieithog, a chynhyrchwyd PwerBwynt hyfforddi ein hunain yn ogystal.




Sgrin lun o sleid pwerbwynt hyfforddiant dwyieithog


## Astudiaeth Achos 1: *Amgylchedd (system Casglu Gwastraff newydd)*

Cefndir

Mae ailgylchu'n bwysig iawn i Sir Gâr, ac yn allweddol fod pawb yn chwarae eu rhan i gyrraedd targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y flwyddyn 2022-23 y targed ailgylchu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yw 64%. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, penderfynodd y Cyngor fod yn rhaid rhoi systemau ailgylchu newydd yn ei le. Yr hyn bydd yr astudiaeth yn rhoi sylw iddo yw, pa mor effeithiol gafodd y Gymraeg ei ddefnyddio trwy hyrwyddo a marchnata'r system newydd. Roedd yr holl ddogfennau a gafodd eu dosbarthu i'r cyhoedd, gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, stondin sionc ac ati i gyd yn ddwyieithog.

Gweithred

Yn y flwyddyn 2021-22 roedd canran ailgylchu Sir Gâr yn 62%. Fel rhan o'n nod parhaus i wella, cyflwynwyd system newydd ym mis Ionawr 2023. O ganlyniad, roedd rhaid rhoi cynllun ar waith o ran hysbysu holl drigolion y Sir o'r newidiadau oedd ar droed. Y cam cyntaf oedd dosbarthu llythyron a chalendrau i holl drigolion y Sir, gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg yn cael eu dosbarthu. Cyfanswm y llythyrau a anfonwyd at breswylwyr hyd yn hyn yw 98,453 a'r rhain wedi eu dosbarthu trwy'r post. Yn amlwg, roedd prif neges yr ohebiaeth yn aros yr un peth drwy'r cyfnod, ond roedd yn cynnwys rhai amrywiadau megis y dyddiau casglu a materion mynediad ac ati.



Carmarthenshire County Council

PENRHIWLAS
TALLEY
LLANDEILO
SA19 7DU

Annwyl Breswylydd

**Newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a bagiau du**

Rydym yn gwneud newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a bagiau du, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i chi ailgylchu mwy o'ch cartref. Daw'r newidiadau hyn i rym yr wythnos sy'n dechrau **ddydd Llun 23 Ionawr 2023.**

**Eich diwrnod casglu fydd Tuesday**

- Byddwn yn casglu eich **bagiau glas** ar gyfer eich deunydd ailgylchu sych **bob wythnos**, ochr yn ochr â'ch **bin gwyrdd** ar gyfer eich gwastraff bwyd.
- Byddwn yn casglu eich **bagiau du** ar gyfer eich gwastraff cartref sy'n weddill na ellir ei ailgylchu **bob 3 wythnos.** I wirio'ch dyddiadau casglu, cymerwch olwg ar y calendr sy'n amgaeedig. **Gallwch roi hyd at 3 bag du allan bob 3 wythnos.**

Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth casglu gwydr newydd ar gyfer eich poteli a'ch jariau gwydr. Fodd bynnag, oherwydd y mynediad sydd ei angen ar gyfer ein cerbyd casglu gwydr, ni allwn wasanaethu eich eiddo ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried opsiynau eraill i ddarparu'r gwasanaeth hwn i chi yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, parhewch i fynd â'r eitemau hyn i'ch banc gwydr lleol i gael eu hailgylchu.

Erbyn dydd Gwener 10 Chwefror 2023, byddwn yn danfon atoch gyflenwad blwyddyn o fagiau glas a bagiau leinio gwastraff bwyd ar gyfer eich cadi cegin brown. Os oes gennych fwy o fagiau glas neu fagiau leinio gwastraff bwyd nag sydd eu hangen arnoch, rhowch nhw i deulu neu ffrindiau a allai fod eu hangen oherwydd

Sir Gâr yn ailgylchu
Carmarthenshire recycles

Enghraifft o lythyr Cymraeg am ailgylchu

Yr ail gam yn ystod y cyfnod o hysbysu oedd danfon pecyn gwybodaeth allan at drigolion Sir Gâr i'w paratoi ar gyfer y newid yn y gwasanaeth. Cafodd y pecyn yma ei ddylunio gyda'r un wybodaeth yn y ddwy iaith a'r un diwyg yn ogystal.







Enghreifftiau o waith hyrwyddo'r trefniadau newydd yn Gymraeg


Chwaraeodd y cyfryngau cymdeithasol ran allweddol yn hyrwyddo'r newidiadau. Eto cafodd y Gymraeg ei ddefnyddio yn gwbl gyfartal â'r Saesneg. Cafodd gynllun ei lunio o'r holl bostiadau i'w rhannu, gyda'r Gymraeg ym mhob post. Dangosa'r tabl isod y Cynllun ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol. Gwelir fod y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn ogystal â'r adnoddau yn y Gymraeg hefyd.

| Date | English | Cymraeg | Asset | Notes |
|---|---|---|---|---|
| 22nd November | We're making changes to your recycling and black bag collections, making it easier for you to recycle more from home.<br><br>These changes come into effect from the week beginning Monday 23 January 2023.<br><br>Between now (14 November) and Friday 20 January, you'll receive an information pack from us explaining how the changes affect you directly.<br><br>More information ⬇️<br>https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/recycling-bins-and-litter/future-changes-to-recycling-and-bin-collections/ | Rydym yn gwneud newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a bagiau du, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i chi ailgylchu mwy o'ch cartref.<br><br>Daw'r newidiadau hyn i rym yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 23 Ionawr 2023.<br><br>Rhwng nawr (14 Tachwedd) a dydd Gwener 20 Ionawr, byddwch yn cael pecyn gwybodaeth gennym yn egluro sut y bydd y newidiadau'n effeithio'n uniongyrchol arnoch chi.<br><br>Rhagor o wybodaeth ⬇️<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/ailgylchu-biniau-a-sbwriel/newidiadau-i-gasgliadau-ailgylchu-a-biniau-yn-y-dyfodol/ | <br> | Date will depend on the demand on contact centre. This could potentially go out later in the week. |
| 29th November | Between now and Friday 20 January, we'll deliver your year's supply of blue bags, food waste liners for your brown kitchen caddy and a black box for your glass bottles and jars, if your home is receiving this new service.<br><br>If you run out you can pick up more blue bags/food lines yourself, visit our website for a list of outlets ⬇️<br>https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/recycling-bins-and-litter/blue-bags-recycling/#.Y3IQ2XbP2Ul | Rhwng nawr a dydd Gwener 20 Ionawr, byddwn yn danfon atoch eich cyflenwad blwyddyn o fagiau glas a bagiau leinio gwastraff bwyd ar gyfer eich cadi cegin brown, a blwch du ar gyfer eich poteli a jariau gwydr, os yw eich cartref yn derbyn y gwasanaeth newydd hwn.<br><br>Os nad oes gennych chi fagiau ar ôl gallwch gasglu rhagor o fagiau glas/bagiau bwyd, ewch i'n gwefan am restr o leoliadau ⬇️<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/ailgylchu-biniau-a-sbwriel/bagiau-glas-ailgylchu/#.Y3Sr_XbP2Uk | <br> | |

Cynllun marchnata dwyieithog

O’r uchod gwelir fod yna strwythur clir a pharatoadau da wedi cael ei roi mewn lle er mwyn arddangos y ddwy iaith yn effeithiol. O’r cynllun, cafodd y rhain eu rhannu ar dudalennau Twitter a Facebook y Cyngor a gwelir enghreifftiau amrywiol isod.





Enghreifftiau o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol

Fel rhan o’r cynllun cyfathrebu, cafodd rhaglen ymgysylltu ei ddatblygu lle’r oedd aelodau staff o’r gwasanaeth gwastraff yn cael eu dyrannu, un i bob Hwb bob wythnos ar ddydd Llun i ymgysylltu â phreswylwyr a chynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau oedd ganddynt. Yn ychwanegol i’r Hybiau, defnyddiwyd stondin sionc fel bod aelodau o’r cyhoedd yn gallu gweld pa wasanaeth oedd yn cael ei hyrwyddo. Gwelir isod y wybodaeth roedd y stondin sionc yn darparu.





Enghraifft o wybodaeth o’r Hwb


Cafodd y newidiadau i'r casgliadau ailgylchu hefyd eu hyrwyddo'n fewnol, yn y cylchlythyrau staff ac ar y fewnrwyd. Yn arwain fyny at y newidiadau hyn cafodd holl staff y Cyngor eu hysbysu o'r wybodaeth yn y cylchlythyr staff. Cyhoeddwyd yr holl gylchlythyrau staff yn Gymraeg a Saesneg.



Gwybodaeth yn y cylchlythyr staff, fersiwn Cymraeg.

Cafwyd sesiwn ymgysylltu gyda'r Cyngor Tref a Chymuned lle cyflwynwyd gwybodaeth ar ffurf cyflwyniad ar y newidiadau hyn a sut byddant yn effeithio'r Sir. Roedd y cyflwyniad hwn yn mynd i fanylder ac yn cynnwys gwybodaeth am y cynnig, bocsys gwydr, hysbysiadau e-bost / neges destun ac ati. Cymraeg oedd prif iaith y cyflwyniad gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf ar yr ochr chwith.



Sgrin lun o sleidiau cyflwyniad dwyieithog

<u>Canlyniad</u>

Ers i'r newidiadau gael eu cyhoeddi ac i'r system newydd fod yn weithredol, mae'r Gymraeg wedi parhau i gael ei ddefnyddio yn barhaus, yn bennaf mewn cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelir isod enghraifft sydd yn esbonio fod y casgliadau ailgylchu yn parhau i fod yr un peth ar ŵyl y Banc. Nid oedd pawb yn hapus gyda'r newidiadau hyn ar y dechrau, ond mae'r system gwynion hefyd yn caniatáu cwynion trwy gyfrwng y Gymraeg!




Enghraifft o bostiad Cymraeg

<u>Dyfodol</u>

Wrth symud ymlaen, y bwriad yw parhau i wneud yr holl gyhoeddiadau a newidiadau'n ddwyieithog. Yn ogystal, byddwn yn monitro defnydd a chynnydd y postiadau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol i weld faint o drigolion y Sir sydd yn darllen ac ymateb i'r erthyglau Cymraeg. Hefyd, byddwn yn monitro'r wefan a gweld faint o drigolion sydd yn dewis y wefan yn y Gymraeg wrth edrych ar 'Sbwriel ac Ailgylchu'. Y gobaith yw bydd y ffigwr yn cynyddu ac y bydd pobl yn datblygu'r arfer o edrych ar newyddion a gwybodaeth Cymraeg ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

## Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Roedd y Cyngor wedi ei ddewis gan y Comisiynydd fel rhan o sampl o 24 o gyrff cyhoeddus ar gyfer yr adolygiad o arferion recriwtio. Yn yr holiadur yma, roedd cyfle i egluro ein prosesau recriwtio, o osod gofyniad ieithyddol ar swydd i recriwtio a chyfweld. Darparwyd 3 enghraifft amrywiol o swyddi diweddar a nodwyd bod 62% o'n swyddi yn cael eu llenwi gyda staff sy'n cyflawni'r gofyniad ieithyddol sydd ar yr hysbyseb swydd.

**Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol: Safon 98**

Yn ogystal â darparu rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau Cymraeg i'r gweithlu, gwnaed gwaith ar annog defnydd y Gymraeg yn anffurfiol yn fewnol hefyd, gyda'r bwriad o gynnal a chodi hyder ein gweithlu yn eu sgiliau Cymraeg. Er gwaetha'r dychweliad rhannol i'r gweithle, parhawyd â sesiynau Cymraeg anffurfiol, misol y Clwb Clebran. Cynhaliwyd 10 sesiwn o'r clwb yn ystod y flwyddyn.

| Mis | Dyddiad | Siaradwr/Siaradwyr | Nifer o fynychwyr |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 27/04/22 | Celf Calon | 19 |
| Mai | 10/05/23 | Triathlon | 36 |
| Mehefin | 14/06/22 | Arbed Arian | 26 |
| Gorffennaf | | | |
| Awst | | | |
| Medi | 28/09/22 | Gareth Davies (Rygbi) | 27 |
| Hydref | 26/10/22 | Aled Jones (Prif Weithredwr Sioe Frenhinol) | 17 |
| Tachwedd | 23/11/22 | Jin Talog | 12 |
| Rhagfyr | 08/12/22 | Lisa Fearn | 20 |
| Ionawr | 18/01/23 | Mêl Gwenyn Gruffydd | 15 |
| Chwefror | 15/02/23 | Hafan Holistaidd | 14 |
| Mawrth | 19/03/23 | Cwis a Chawl Gŵyl Ddewi (sesiwn mewn person) | 26 |

Tabl  yn dangos rhaglen a mynychwyr y clwb

Roedd un o'r sesiynau yma'n sesiwn mewn person. Cyfunwyd y clwb clebran â'n staff sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg mewn Cwis a Chawl yng nghanolfan Yr Atom, Caerfyrddin i ddathlu dydd Gŵyl Dewi.  Roedd hwn yn gyfle gwych i annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn ystod oriau gwaith, ond mewn lleoliad y tu allan i'r gweithle.



Llun o fynychwyr y clwb yn y dathliad ar ddydd Gŵyl Dewi

Defnyddiwyd *Diwrnod Shwmae* eleni fel cyfle i hyrwyddo cyfleoedd y tu allan i'r gweithle i ddefnyddio'r Gymraeg. Paratowyd un poster yn benodol ar gyfer dysgwyr, ac un arall yn hyrwyddo'r holl ddigwyddiadau cymdeithasol oedd ynghlwm wrth bwyllgorau ardal yr Eisteddfod.





Posteri'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Gosodwyd y ddau boster ar y fewnrwyd i annog ein gweithlu i gynnal eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg drwy wneud defnydd eang o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Rhannwyd y posteri yma gyda'r Heddlu a'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn iddyn nhw eu hyrwyddo ymysg eu gweithluoedd nhw yn ogystal.

**Y Fewnrwyd: Safonau 121-7**


Mae pob tudalen ar ein mewnrwyd ar gael yn Gymraeg. Rydym yn dilyn yr un drefn a chadw'r safonau uchaf posib ar ein mewnrwyd a'n gwefan. Mae'r cylchlythyr staff hefyd yn ymddangos ar y fewnrwyd yn Gymraeg, ac yr union yr un pryd ac i'r un safon a'r fersiwn Saesneg. Ar ben hynny, rydym wedi sicrhau nifer fawr o eitemau yn ein cylchlythyr staff sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.




Enghreifftiau o rai o'r eitemau am y Gymraeg yn y cylchlythyr staff ar y fewnrwyd

**Cyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth iaith: Safon 132**

Diweddarwyd ein e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith orfodol i'r gweithlu er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol yn dilyn cyhoeddiad data Cyfrifiad 2021.




Sgrin lun o sleid allan o'r e-fodiwl

Rydym wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda'r gwaith o sefydlu rhaglen i ddatblygu capasiti adrannau o fewn y Cyngor i **weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg**. Gan fod hwn yn mynd y tu hwnt i'r Safonau Gweithredu fe adroddir arno o dan y Safonau Hybu.

## Astudiaeth Achos 2 – Hyfforddiant Cyfieithu ar y pryd yn ‘Teams’ (Safon 129)

**Cefndir**

Ers COVID-19 mae cyfarfodydd hybrid bellach yn ffordd mae’r Cyngor yn ei ddefnyddio i gyfathrebu yn ddyddiol. Erbyn hyn rydym yn symud at weld mwy o bobl yn dod i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ond nid yw hyn yn bosib i bawb ac mae cyfleustra cyfarfodydd ar lein yn ddiamheuol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae’r Cyngor wedi bod yn defnyddio meddalwedd Zoom er mwyn galluogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Roedd hyn yn broses gostus gan roedd yn rhaid cael trwydded. Nid oedd Microsoft Teams yn cynnig cyfieithu ar y pryd ac roedd y dull amgen o ddefnyddio ffonau symudol mewn cyfarfodydd Teams yn glogyrnog. Bellach mae datblygiadau Microsoft yn caniatáu cynnwys cyfieithydd sydd yn gallu cyfieithu i’r Gymraeg mewn amser real, heb amharu ar gyflwyniad y siaradwr. Mae Teams yn hwylus i ddefnyddio ac yn atal gorfod defnyddio system gwahanol ar gyfer cyfarfodydd lle mae cyfieithu ar y pryd ar gael.

**Gweithred**

Er mwyn sicrhau fod staff y Cyngor yn medru defnyddio’r adnodd newydd yn effeithiol, a’i fod yn cydblethu’n rhwydd gyda gweithdrefnau ein huned gyfieithu, lluniwyd canllaw, ar ffurf e-fodiwl hyfforddi, a’i gyhoeddi ar ein mewnrwyd. Dilynwyd dull aml adrannol wrth greu’r adnodd i sicrhau ein bod yn ystyried anghenion pawb. Bellach, mae modd i holl staff y Cyngor gael mynediad at y canllaw ar dudalennau TG, yn ogystal â thudalennau ‘Gweithio’n Ddwyieithog’.

Er mwyn gwneud holl staff y Cyngor yn ymwybodol o’r datblygiadau, fe aethom ati i hyrwyddo’r Canllaw’n fewnol.


Diwrnod 'Mae Gen i Hawl'

Sgrin lun o neges farchnata ar y fewnrwyd

Roedd amseriad lansio’r canllaw yn cydredeg gyda diwrnod ‘Mae Gen i Hawl’ 2022. Lansiwyd y canllaw ar y diwrnod trwy gael arbedwr sgrin oedd yn gallu arwain y staff at y canllaw, yn ogystal â chyhoeddi yn y cylchlythyr wythnosol ar gyfer staff a ddaeth allan ar y 1 Rhagfyr 2022.




Neges farchnata yn y cylchlythyr staff i holl staff y Cyngor

**Canlyniad**

Ers i'r canllaw gael eu cyhoeddi, mae defnydd rheolaidd wedi cael ei wneud o'r cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol megis:

- Cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned
- Cyfarfodydd Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd
- Cyfarfodydd Paneli Ymgynghorol
- Cyfarfodydd Eisteddfod yr Urdd.


Dim ond ychydig o enghreifftiau a nodir uchod o'r achosion lle bod cyfieithu ar y pryd wedi digwydd mewn cyfarfodydd, ond mae'r system bellach yn hawdd i bawb i ddefnyddio ac mae gan bawb mynediad ati.

Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn fuddiol i ddysgwyr neu reini sydd ddim yn hyderus iawn yn defnyddio'r Gymraeg gan fod y cyfleuster o gyfieithu yn eu galluogi i ddilyn y Gymraeg gymaint ag y gallant a bod y cyfieithu yno i ni gwympo yn ôl arno os oes geiriau a brawddegau nad ydynt yn deall.




Enghraifft o sleid o'r e-fodiwl

Rydym wedi derbyn adborth gan ddefnyddwyr, gydag enghreifftiau lle mae cyfieithu wedi gweithio'n llwyddiannus mewn cyfarfodydd Teams, ond hefyd rhai aflwyddiannus. Er enghraifft, cafwyd dau gyfarfod aflwyddiannus gyda phenaethiaid ysgolion y Sir lle na lwyddwyd i gael y system cyfieithu i weithio'n briodol. Gyda chyngor arbenigol swyddog o Lywodraeth Cymru, roedd modd datrys y problemau a chynnal cyfarfodydd dilynol llwyddiannus. Daeth heriau i'r amlwg o safbwynt gosodiadau Teams unigolion a hefyd o ran lefelau sain y cyfieithydd. Yn ogystal, canfuwyd fod yn rhaid i drefnydd y cyfarfod fynychu'r cyfarfod yn gynnar i sicrhau gosod y cyfieithydd yn ei le cyn i bawb arall ymuno.




Neges farchnata ar y fewnrwyd

**Dyfodol**


Y bwriad yw parhau i wneud defnydd rheolaidd yn fewnol ac yn allanol o'r cyfieithu ar y pryd, ac ymestyn y neges fod y feddalwedd hon bellach ar gael i'r holl adrannau o fewn y Cyngor. Bydd yn rhaid i ni ddiweddaru'r canllaw yn gyson wrth i broblemau godi a chael eu datrys.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

**Safon 93**
Mae ein dogfennau ymgynghori oll yn rhoi cyfle i bobl leisio barn ar effaith polisi arfaethedig ar y Gymraeg, gyda'r cwestiynau yma'n cael eu cynnwys ym mhob ymgynghoriad.


Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Diolch i chi am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn
Cliciwch ✓ 'Cyflwyno' i anfon eich atebion atom

Sgrin lun o gwestiynau yn y ffurflen ymgynghori

**Safon 88**
Lluniwyd **Polisi enwi tai a strydoedd** newydd sy'n bwriadu cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg. Fe fydd yn cryfhau dylanwad y Cyngor ar warchod enwau Cymraeg a hanesyddol yn y Sir. Mae'r polisi wedi cychwyn ar ei thaith drwy'r broses ddemocrataidd ac, o'i gymeradwyo, fe fydd yn cael ei weithredu'n gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf ac yn sicrhau anogaeth gref i breswylwyr a datblygwyr i fabwysiadu enwau sy'n adlewyrchu natur ieithyddol y Sir ac yn parchu hanes a diwylliant ein hardaloedd.
Gwnaed gwaith aruthrol i sicrhau ystyriaeth o effaith y **Cynllun Datblygu Lleol** newydd ar y Gymraeg, gan gynnwys gwaith a gomisiynwyd i Iaith Cyf i baratoi **Methodoleg Asesiad o'r Effaith** ar yr iaith Gymraeg.
Cyn y gall arfarniad o effeithiau'r Strategaeth a Ffefrir ar yr iaith Gymraeg cael ei gynnal, mae angen cytuno ar fethodoleg gynhwysfawr, realistig ac addas ar gyfer yr asesiad ieithyddol. Fel ail gam i'r gwaith, fe wnaed **Asesiad o Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig ar yr iaith Gymraeg**, sef asesiad lefel uchel o'r effeithiau tebygol, gan adeiladu ar yr asesiad sydd eisoes wedi ei wneud ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol a Thwf a ffefrir, ar yr Iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.
Yn yr un modd, gwnaed yn siŵr fod effaith ar ddefnydd y Gymraeg yn cael ei ystyried o ddifri wrth weithio ar y cyd gyda'r BGC i lunio'r Cynllun Llesiant newydd. Drwy'r Cynllun Llesiant newydd, rydym yn anelu at gryfhau'r ddolen rhwng gwaith y Strategaeth Hybu a'r Cynllun Llesiant drwy gynrychiolaeth y cyrff sydd ar y Fforwm a'r BGC yn ystod y blynyddoedd i ddod.
Yn ogystal, parhawyd â'r gwaith o sicrhau effaith gadarnhaol ein datblygiadau economaidd ar ddefnydd y Gymraeg. Gwnaed asesiad o effeithiau negyddol a chadarnhaol prosiect **Pentre Awel** ar y Gymraeg a lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn ceisio sicrhau effeithiau cadarnhaol y datblygiad ar y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Rheoli bellach wedi cymeradwyo a mabwysiadau'r Cynllun ac fe fyddwn yn sicrhau fod y gwaith sydd ynddo yn cael ei fabwysiadu gan y grwpiau gwaith sy'n rheoli'r prosiect (Astudiaeth Achos 2).

Yn dilyn rhyddhau ffigurau **Cyfrifiad 2021**, mae'r Cyngor wedi coladu a gosod data defnyddiol ar ffigurau'r Gymraeg yn y Sir ar ein gwefan. Mae yno grynodeb ac infograffeg sy'n rhoi


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

gorolwg o sefyllfa'r Gymraeg ac yna siartiau cymharol gyda mwy o fanylder. Bydd y gwaith hwn yn parhau, gan ychwanegu gwybodaeth ar gyfer y wardiau wrth i'r wybodaeth gael ei ryddhau. Fe fydd yn sicrhau bod gennym ni'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer ein penderfyniadau polisi ac yn darparu'r un wybodaeth i'r cyhoedd.

**Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| Sgiliau Iaith Gymraeg | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | |
| **Pob person 3 oed a throsodd** | 177,642 | | **182,719** | | 2,955,841 | | **3,018,172** | |
| Gallu siarad Cymraeg | 78,048 | 43.9% | **72,838** | **39.9%** | 562,016 | 19.0% | **538,296** | **17.8%** |
| Dim sgiliau yn y Gymraeg | 74,355 | 41.9% | **85,287** | **46.7%** | 2,167,987 | 73.3% | **2,259,017** | **74.8%** |
| *Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 20,716 | 11.7% | **19,995** | **10.9%** | 157,792 | 5.3% | **156,762** | **5.2%** |
| Yn siarad Cymraeg ond ddim yn ei darllen na'i hysgrifennu | 11,919 | 6.7% | **10,578** | **5.8%** | 80,429 | 2.7% | **68,391** | **2.3%** |
| Yn siarad ac yn darllen Cymraeg ond ddim yn ei hysgrifennu | 7,436 | 4.2% | **5,031** | **2.8%** | 45,524 | 1.5% | **33,971** | **1.1%** |
| Yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg | 58,321 | 32.8% | **56,493** | **30.9%** | 430,717 | 14.6% | **429,313** | **14.2%** |

*Dadansoddiad:*

- *Bellach mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ac rydym yn parhau y pedwerydd uchaf o ran canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.*
- *Mae nifer y bobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng 4 pwynt canran ers 2011. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd wedi gostwng ledled y wlad i 538,296, ond dim ond gostyngiad o 2.8 pwynt canran yw hyn. Mae llawer o ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad, megis poblogaeth a mudo.*

Sgrin lun o ddata'r cyfrifiad ar y wefan

**Safon 94**

Lluniwyd **Polisi Dyfarnu Grantiau** newydd eleni a oedd yn cryfhau ein gofynion ar sefydliadau sy'n ceisio am grantiau gan y Cyngor. Yn hytrach na gofyn am bolisi iaith gyda phob cais, mae'r polisi newydd yn galw ar ymgeiswyr i ystyried yr effaith y bydd eu prosiect yn cael ar ddefnydd y Gymraeg. Mae'n gofyn iddyn nhw nodi sut y bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y ffurflen gais. Bydd swyddogion yn asesu a ydy eu cynigion yn ddigonol, a phan yn hapus gyda'r ymrwymiadau, maent yn eu gosod yn llythyron cynnig / amodau grant yr ymgeiswyr llwyddiannus. Y gobaith yw y bydd y polisi newydd hwn yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn gorfod ystyried ei gapasiti i weithredu'n Gymraeg a'r modd y mae'n mynd i ddarparu'n Gymraeg, yn hytrach na chyflwyno polisi iaith sy'n anodd iawn ei fonitro. Mae'r polisi wedi cychwyn ar ei thaith drwy'r broses ddemocrataidd ac, o'i gymeradwyo, fe gaiff ei weithredu yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y gwaith hwn yn cyd-fynd gyda chyflwyno cronfeydd newydd y Gronfa Ffyniant Lleol, ac felly roedd modd cynnwys y broses newydd yn y gwaith papur ar gyfer y grantiau hynny.

Er mwyn sicrhau ymhellach fod disgwyliadau i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ogystal â darparu'n ddwyieithog yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, rydyn ni wedi cryfhau'r ddolen gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Nod Llesiant sy'n ymwneud â'r Gymraeg o fewn y **papurau tendro**. Mae'r Nod Llesiant Cenedlaethol sy'n cyfeirio at 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac Amcan Llesiant perthnasol y Cyngor hefyd wedi eu hintegreiddio i gynllunio busnes y Cyngor. Mae pob adran ac isadran yn gorfod ystyried, wrth gynllunio, sut mae eu gwaith yn mynd i gyfrannu i'r amcanion llesiant.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| Consider if the implications of delivering a fully **Bi-lingual** contract have been explored. (Councils are required to comply with the Welsh Language (Wales) Measure 2011) | Yes |
| Consider if the tender will be delivered in such a way as to encourage the use of the Welsh language and therefore comply with the National Wellbeing goal of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 of a 'vibrant culture and Welsh language', and Carmarthenshire's Well-being objective to 'Promote Welsh Language and Culture'. | Yes<br><br>Any text on the supplied products will be bilingual in nature as the text and any graphics are being supplied by CCC to the successful supplier. |

Rhan o daflen wirio caffael

Eleni rhoddwyd cyngor i amryw adrannau wrth iddynt baratoi dogfennau tendr, gan gynnwys *Astudiaeth Gwrthbwyso carbon* a *Phlatfform monitro galwadau brys Llesiant Delta*, y llinell gymorth gymdeithasol yn y cartref.

Darparodd y Cyngor fewnbwn ar y Gymraeg i nifer o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru eleni gan gynnwys *Strategaeth Arloesi i Gymru*, *Cynllun Tai a Chymunedau Cymraeg*, *Comisiwn Cymunedau Cymraeg* a'r *Fforwm enwau lleoedd*.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Astudiaeth Achos 3 – Pentre Awel

**Cefndir**

Adroddwyd y llynedd am y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a wnaed o fewn prosiect economaidd Pentre Awel, yn Llanelli. Gyda'r gwaith hwnnw'n sail i weithredu ymhellach a'r prosiect yn symud yn ymarferol i'r cam adeiladu, aed ati eleni i geisio sicrhau ymhellach ddylanwad y Cyngor o safbwynt y Gymraeg ar holl elfennau'r prosiect. Gwelwyd cyfle i roi sail dystiolaeth i'r cysyniad o hyrwyddo a hybu'r Gymraeg wrth ddatblygu'r cynllun economaidd hwn, gan geisio sicrhau ymrwymiad holl bartneriaid y prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg ar bob cam o'r datblygiad. Roedd y Fforwm Strategol Sirol a Chymdeithas yr Iaith yn awyddus i weld y Gymraeg yn cael ei integreiddio i'r holl ddatblygiad, a bu trafodaethau yng nghyfarfodydd y Fforwm a rhwng y swyddogion prosiect a Chymdeithas yr Iaith yn ogystal.

**Gweithred**

Gan ddefnyddio cynsail y safonau Llunio Polisi (88-93), aed ati i ddrafftio Asesiad Effaith ieithyddol ar y datblygiad gan nodi effeithiau negyddol a chadarnhaol posib ar y Gymraeg yn y saith elfen a enwir yn y cynllun prosiect.

LLANELLI - SIR GÂR - CYMRU
Pentre Awel
LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

**Mesur effaith Pentre Awel ar yr iaith Gymraeg**

**Elfen 1: Adeiladu Parth 1**

| Effeithiau negyddol posibl | Effeithiau cadarnhaol posib |
|---|---|
| Gall cymhlethdod / natur arbenigol rhai pecynnau gwaith, gwasanaethau a deunyddiau sydd eu hangen i ddatblygu Parth 1 atal, neu eithrio busnesau bach a chanolig lleol | Nifer o gwmnïau lleol, o Gymru, yn cael gwaith adeiladu ar y safle a'r Gymraeg yn cael ei sefydlu fel iaith gyfartal yn y gweithle |
| Nifer fawr o gwmnïau o Loegr yng nghadwyn gyflenwi'r contractwyr yn cael pecynnau gwaith is-gontractwr | Y Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hyrwyddo ar y safle, fel yr awgrymir gan strategaeth Llywodraethau Cymru Cymraeg 2050: "Mewnfudo… gall hefyd fod yn gyfle i ddangos… aml-ddiwylliant ac amrywiaeth" |
| Nifer fawr o unigolion o'r tu allan i Gymru yn symud i'r ardal dros dro neu'n hirdymor o ganlyniad i'r cyfleoedd gwaith newydd sydd ar gael o fewn rhanbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gall hyn newid proffil ieithyddol yr ardal leol yn ystod y rhaglen adeiladu, gan greu mwy o anghydbwysedd o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg yn yr ardal leol | Pob cwmni'n ccofnodi sgiliau iaith eu staff ac yn cytuno gwisgo bathodyn oren i ddynodi eu gallu i siarad Cymraeg |
| Saesneg yn unig yn cael ei siarad o gwmpas y safle am gyfnod estynedig | Pob gweithiwr yn derbyn hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin cyn dechrau ar y safle. Gwybodaeth yn cael ei ddarparu am gyfleoedd i gaffael Sgiliau Cymraeg drwy'r system Addysg neu drwy gyrsiau Cymraeg. |
| | Elfennau sylweddol o brofiad gwaith yn cael ei gynnig yn y Gymraeg i Bobl ifanc |
| | Paru prentisiaid ifanc gyda siaradwyr Cymraeg ar y safle a'u hannog i ddefnyddio eu Cymraeg ar y safle |
| | Recriwtio Llysgenhadon Cymunedol Cymraeg eu hiaith a all eirioli dros y project a fydd yn ymgysylltu â'r cymunedau cyfagos |
| | pob cwmni'n rhoi gwybodaeth i'w staff am yr iaith Gymraeg, am addysg a chyrsiau Cymraeg |

Asesiad effaith Pentre Awel

Yn dilyn yr Asesiad Effaith, drafftiwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg, y cyntaf o'i bath ar gyfer y prosiect cyfan. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adnabod gweithredoedd a fydd yn sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o'r gwaith adeiladu hyd at y ddarpariaeth hamdden ac iechyd a gofal.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

LLANELLI - SIR GÂR - CYMRU
Pentre Awel
LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

**Pentre Awel – Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg**

**Rhagarweiniad**

Mae Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg (WLAP) yn nodi ac yn olrhain cyfleoedd a chamau gweithredu allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth a swyddogaethau Pentre Awel. Mae'n amlinellu rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu a gweithio gyda nhw, yr amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen.

**Datganiad o Genhadaeth**

***"Creu datblygiad cynhwysol lle mae pobl o bob oed a gallu yn cael cyfleoedd i weithio, dysgu, byw a chwarae yn Gymraeg"***

**Cyd-destun Strategol**

Bwriedir i Gynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg  a'r fethodoleg a fabwysiadwyd ategu strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*. Yn benodol, yn unol â mentrau ehangach y Cyngor, nod Pentre Awel yw cyfrannu at y tair thema strategol: (i) cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; (ii) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a (iii) chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg.

Mae'r cynllun a ganlyn yn mapio aliniad gwasanaethau a swyddogaethau Pentre Awel â'r tair thema strategol. Fel y dangosir, mae cyfle i fynd i'r afael â phob un o'r themâu strategol drwy 'ecosystem' Pentre Awel gyda'r potensial ar gyfer y gweithgaredd mwyaf yn thema dau – cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.





| 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg | 3. Creu amodau ffafriol |
|---|---|---|
| •Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant *(Parth 1)*<br>•Ymgysylltu ag Ysgolion *(Parthau 1,2,3,4)*<br>•Byw â Chymorth *(Parthau 2 a 3)*<br>•Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal *(Parth 2)*<br>•Tai Fforddiadwy a Chymdeithasol *(Parth 2)*<br>•Tai *(Parth 4)* | •Hamdden *(Parth 1)*<br>•Iechyd *(Parth 1)*<br>•Busnes *(Parthau 1 a 3)*<br>•Ymchwil ac Arloesi *(Parthau 1 a 3)*<br>•Byw â Chymorth (Parthau 2 a 3)<br>•*Gwesty a Thai (Parth 4)*<br>•Ymgysylltu cymunedol *(Parthau 1,2,3,4)* | •Seilwaith / cyfleusterau *(Parthau 1,2,3,4)*<br>•Caffael *(Parthau 1,2,3,4)*<br>•Rhaglen buddion cymunedol *(Parthau 1,2,3,4)*<br>•Addysg Bellach ac Uwch *(Parth 1)*<br>•Deori a chymorth busnes *(Parthau 1 a 3)* |

1.

| Gweithgaredd | Disgrifiad/Trosolwg | Camau gweithredu/Cyfleoedd | Rhanddeiliaid/Adnoddau | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| CAFFAEL AC ADEILADU | | | | |
| Penodi Prif Gontractwr ar gyfer Parth 1 | • Bydd disgwyl i'r contractwr llwyddiannus a benodir i ddylunio ac adeiladu Parth 1 roi rhaglen gynhwysfawr o fuddion cymunedol ar waith<br>• Dylai'r rhaglen buddion cymunedol geisio hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a mentergarwch ar draws pedair colofn allweddol:<br>○ Recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu<br>○ Mentrau addysg<br>○ Ymgysylltu cymunedol<br>○ Cadwyn gyflenwi | • Ystyried addasiad i raniad pris/ansawdd (yn draddodiadol 70:30) a ddefnyddir i sgorio contractwyr tendro i roi mwy o amlygrwydd i effaith economaidd-gymdeithasol / buddion cymunedol<br>• Dogfennaeth dendro i adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru<br>• Ymchwilio i gynnwys y Gymraeg mewn perthynas â recriwtio a hyfforddi (gan gynnwys prentisiaethau), cadwyn gyflenwi ac ymgysylltu â'r gymuned<br>• Gweld a all sefydliadau Cymreig helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau Buddion Cymunedol priodol.<br>• Sicrhau cynrychiolaeth o'r Gymraeg yng nghyfarfod grŵp rhanddeiliaid buddion cymunedol BYUK | Cyngor Sir Caerfyrddin Caffael<br>Cyfran 6 o SWWRCF | • Tendr Parth 1 wedi'i osod ym mis Mai 2021 trwy SWWRCF. Gwerthusiad Awst 2021 gan ddefnyddio methodoleg pris 40% / 60% o ansawdd<br>• Iaith Gymraeg a diwylliant wedi ei adlewyrchu yn y dogfennau tendro<br>• Hydref 2021 - Penodi Bouygues UK yn gontractwr Parth 1<br>• Ionawr 2022 - Nina Williams wedi ei phenodi'n ymgynghorydd Buddiannau Cymdeithasol BYUK ac yn siarad Cymraeg<br>• Chwefror 2022 – Cynnwys Swyddog Datblygu'r Gymraeg ar y Grŵp Gwaith |

Cynllun Gweithredu Pentre Awel

**Canlyniad**

Mae yna gamau gweithredu yn digwydd yn barod. Penodwyd Swyddog Buddiannau Cymdeithasol sy'n siaradwr Cymraeg, a gwnaed gwaith allanol gyda'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn Gymraeg. Mae'r cwmni adeiladu yn cyhoeddi cylchlythyr dwyieithog ac fe sicrhawyd hefyd gyfeiriad at hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn y papurau tendr ar gyfer yr adnodd lletygarwch o fewn Parth 1.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council



Pentre Awel

Keeping you informed about construction works

BOUYGUES UK

Rhifyn #3 – Ebrill 2023

**Croeso i drydydd rhifyn ein diweddariad chwarterol sy'n edrych ar y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar ar safle Pentre Awel. Rydym wedi cael gaeaf prysur ac yn hapus i ddweud bod cynnydd gwych wedi cael ei wneud.**

Rydym wedi symud i brif gam contract y gwaith a byddwch yn dechrau gweld rhywfaint o weithgaredd uwchlaw'r byrddau am y tro cyntaf, gan y bydd dau rig mawr i'w gweld yn glir. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion, ysgolion, colegau, cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Gwaith paratoi'r safle

Yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf, aethom ati i achub mantais ar y tywydd mwyn a gorffen ailbroffilio'r gwastadedd adeiladu a chreu'r platfform cerrig.

Amserlen Arfaethedig

Gosod pyst

**(canol Chwefror i ddiwedd Ebrill 2023)**

Cylchlythyr Pentre Awel (fersiwn Cymraeg) gan Bouyges

**Dyfodol**


Fe fydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Prosiect ar ddechrau Ebrill, ac wedi hynny y bwriad yw i'r grwpiau gwaith ei fabwysiadu wedi hynny. Y gobaith yw y bydd y Cynllun Iaith Gymraeg ar agenda pob cyfarfod y grwpiau gwaith er mwyn iddo gael ei weithredu ganddyn nhw. Byddwn hefyd yn creu fideo hyfforddiant i'r cwmni Bouygues i rannu gyda'r gadwyn gyflenwi i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chynnig mesurau a gweithredoedd y gallan nhw eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod o weithio ar Pentre Awel.

Rydym wrthi hefyd yn ceisio sicrhau ffyrdd amrywiol o adrodd ar gynnydd / effaith cadarnhaol ar y Gymraeg yn y systemau adrodd cyffredinol sydd mewn lle ar gyfer y prosiect. Byddwn hefyd yn ceisio dyblygu'r dull hwn mewn prosiectau datblygu newydd eraill yr ydym yn eu harwain.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cydymffurfio â’r Safonau Hybu

**Strategaeth Hybu a’r Fforwm Sirol**
Roedd prif ffocws y gwaith hybu eleni eto ar gyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â’r **Strategaeth Hybu**. Roedd Strategaeth Hybu Sir Gâr yn ymestyn o 2016 hyd at 2021, ac felly yn dilyn llawer o waith cydgynllunio ac ymgynghori gyda phartneriaid, lluniwyd ein strategaeth hybu newydd ar gyfer 2023-8.
Yn gyntaf, lluniwyd adroddiad manwl i bwyso a mesur effaith y Strategaeth gyntaf. Yn dilyn gweithdai i gyrff y Fforwm i edrych yn ôl ar weithrediad y Strategaeth gyntaf ac edrych ar flaenoriaethau i’r cyfnod nesaf, drafftiwyd adroddiad ar weithrediad y Strategaeth a’r cynllun gweithredu a gwnaed ymdrech hefyd i nodi data meintiol yn unol â’r amcanion. Defnyddiwyd yr adroddiad hwn fel sail ar gyfer cynllunio’r Strategaeth newydd a codwyd y gwersi a ddysgwyd o safbwynt llwyddiannau a heriau’n uniongyrchol ohono a’u gosod yn y Strategaeth newydd. Ymgynghorwyd ar gynnwys yr adroddiad gyda holl gyrff y Fforwm yn unigol rhwng Mehefin a Medi 2022 er mwyn sicrhau darlun cywir a theg o’r holl weithgarwch.
Cynhaliwyd cyfarfodydd y Fforwm Strategol Sirol ym mis Mehefin 2022, Medi 2022, Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023, a chyfarfod arbennig ym mis Tachwedd, a oedd yn craffu ar gynnwys y Strategaeth newydd ac yn ymgynghori ar y Cynllun Llesiant. Canlyniad y cyfarfod arbennig hwn oedd llythyru’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn iddyn nhw gynnwys sylw i hyrwyddo’r Gymraeg yn y Cynllun Llesiant. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y Bwrdd oedd yn mynegi’r awydd i alinio nod llesiant gyda’r Strategaeth Hybu.
Drafftiwyd y Strategaeth rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023 yn barod i fynd ar ei hynt drwy bwyllgorau’r democrataidd yn y Cyngor gan anelu i’w lansio yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin ym Mehefin 2023.
Yn ystod 2022-23, rhoddwyd cyflwyniad i Gyngor Gwynedd ac i Gyngor Dinbych ar y fforwm strategol wrth iddynt hwy ddymuno dysgu gwersi o sefydlu’r Fforwm yn Sir Gâr. Cyflwynwyd hefyd yng nghynhadledd Mentrau Iaith Cymru ym Mawrth 2023.




Sleid o gyflwyniad ar waith y Fforwm

Yn ogystal â’r gwaith ynghlwm â llunio’r Strategaeth Hybu, parhawyd â’r gwaith o weithredu’r Strategaeth o safbwynt y Cyngor. Datblygwyd ymhellach y prosiect ‘Iaith ein Gwaith’, sy’n symud yr adran addysg ar hyd y daith tuag at weinyddu fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi ymgais i ddilyn adnodd ARFer, Prifysgol Bangor oedd yn gyfyngedig o safbwynt ei effaith, cynlluniwyd gweithdai i ganfod dyheadau a rhwystrau o fewn yr adran i weithio trwy gyfrwng


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

y Gymraeg. Lluniwyd holiadur cychwynnol ac yna trafodwyd y cwestiynau canlynol yn y gweithdy:



Sleid o weithdy Iaith ein Gwaith

Cynhaliwyd gweithdy gyda rheolwyr yr adran, ac fe fydd cyfres arall o weithdai yn cael eu cynnal cyn Haf 2023.  Ar yr un pryd, mae’r gwaith o ddiweddaru a llenwi bylchau’r sgiliau iaith y gweithlu addysg yn mynd rhagddo.

Buddsoddodd y Cyngor ymdrechion enfawr i sicrhau llwyddiant ymweliad **Eisteddfod yr Urdd** â Sir Gâr yn 2023. Sefydlwyd grwpiau gwaith oedd yn cwrdd yn gyson i gydweithio ar faterion trafnidiaeth, gwastraff, addysg a marchnata, gyda swyddogion Eisteddfod yr Urdd. Yn ogystal, gwnaed gwaith i sicrhau budd economaidd i fusnesau lleol drwy gefnogi’r Urdd gyda digwyddiadau i hyrwyddo ymweliad yr Eisteddfod.
Gwnaed gwaith hybu defnydd hefyd mewn perthynas ag Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr. Mewn ymdrech i sicrhau effaith mwyaf yr Eisteddfod ar ddefnydd ein plant a’n pobl ifanc o’r Gymraeg, sefydlwyd her bartneriaeth, wedi ei sefydlu o gylch cyrff y Fforwm Strategol, i geisio cael pob ysgol yn Sir Gâr i gystadlu yn yr Eisteddfod (Astudiaeth Achos 6).
Yn ogystal â gweithio’n agos gyda’r **Mentrau iaith** yn y Sir drwy’r Fforwm a’r Strategaeth Hybu, parhawyd i gyllido’r tair Menter ar yr un lefel ag arfer er gwaetha’r toriadau oedd yn rhaid eu gwneud i wariant y Cyngor. Parhawyd â’r gwaith, yn ogystal, o gefnogi ymdrechion Menter Cwm Gwendraeth Elli i weithredu fwyfwy yn Llanelli gan fynychu cyfarfodydd gweithredu’r Fenter ar Lanelli a bwydo syniadau a chefnogaeth i’r gwaith hwnnw. Diweddarwyd ac ailargraffwyd taflenni hybu’r Gymraeg y Cyngor eleni. Er bod y Cyngor yn defnyddio fersiynau electroneg o’r dogfennau yma ar y cyfan, darparwyd dogn ohonynt i’r mentrau i ddefnyddio mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb. Ailwampiwyd *Croeso i’r Gymraeg*, *Bod yn Ddwyieithog*, *Cymraeg Gyda’r Plant*, *Cymraeg mewn Busnes* a *Gwaith Cartref Dim Problem* gyda ffigurau newydd y Cyfrifiad a gyda diwyg cyfredol.
Ailgydiwyd yn y gwaith ynghlwm â **Mwy na Geiriau** yn ystod y flwyddyn. Ailsefydlwyd y cyfarfodydd fforwm Mwy na Geiriau, sy’n cynnwys ein hadrannau gwasanaethau cymdeithasol, tai, dysgu a datblygu, gwasanaethau integredig, a chynrychiolaeth o’r Bwrdd


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Iechyd, o dan gadeiryddiaeth Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Prif waith y Fforwm eleni oedd sefydlu is-grŵp i gael darlun cywir a chyflawn o sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Gwnaed gwaith helaeth hefyd gyda'r **byd busnes, a'r economi** yn ehangach. Rhoes cyfle i swyddogion y Fenter fynychu digwyddiadau gwerthu *100% Sir Gâr* adeg y Nadolig i ddylanwadu ar fusnesau lleol i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Comisiynwyd archwiliad hefyd o sgiliau Iaith Gymraeg a Digidol ar draws ardal y Deg Tref gan Grŵp Cefn Gwlad, sef Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gaerfyrddin. Fe ddaeth i'r amlwg y byddai archwiliad o'r fath yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yr iaith yn y Deg Tref; pa mor weladwy yw'r iaith o ran enwau siopau/busnesau, arwyddion a gwaith marchnata trwy'r Gymraeg. Fel rhan o'r adroddiad terfynol, bydd yna gamau gweithredu yn cael eu cynnig er mwyn ystyried sut i fynd i'r afael â chynyddu defnydd y Gymraeg gan fusnesau yn y Deg Tref. Fe fydd y gwaith yn dechrau ym mis Mai 2023 a bydd yn cael ei gwblhau erbyn canol mis Mehefin 2023.

Yn ogystal, parhawyd â'r prosiect, *Iaith Gwaith*, fel rhan o gais Cyngor Sir Gâr i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU. Bwriad y prosiect oedd **cefnogi busnesau** a sefydliadau cymunedol i godi proffil y Gymraeg. Roedd grantiau ar gael hyd at uchafswm o £3,000 gyda pob dyfarniad grant yn seiliedig ar 50% o'r costau cymwys hyd at uchafswm o £3,000. Erbyn diwedd y prosiect, tua Rhagfyr 2023, disgwylir y bydd 27 busnes a 4 mudiad yn derbyn cyllid er mwyn hysbysebu eu busnesau/mudiadau yn ddwyieithog. Fe gomisiynwyd sesiynau hyfforddiant gan Antur Cymru, i annog a chefnogi pawb a dderbyniodd grant i gynyddu a/neu gwella eu defnydd o'r Gymraeg. Cynhaliwyd gweithdai marchnata, sgwrsio'n Gymraeg a llunio polisi Iaith Gymraeg.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

## *Astudiaeth Achos 4: Her yr Urdd*

**Cefndir**

Yn deillio o drafodaethau'r fforwm Strategol Sirol a chyda amcan 2 ein Strategaeth Hybu mewn meddwl, aethom ati i gynnull grŵp gwaith o swyddogion aml-sefydliadol i gefnogi ysgolion ein Sir i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023. Y bwriad oedd lledaenu'r neges am y cyfleoedd a ddaw o'r Urdd i holl ysgolion y Sir er mwyn i gymaint o'n plant a phosib elwa o'r cyfleoedd yn hytrach na bod y profiad yn un i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg gweithgar yn unig. Roeddwn ni eisiau gweld ymweliad Eisteddfod yr Urdd â Sir Gâr yn cael effaith ar ddefnydd gymaint o blant a phosib o'r Gymraeg.

**Gweithredu**

Dyma benderfynu gosod her gyhoeddus i gael holl ysgolion y Sir i gystadlu yn yr Eisteddfod! O dan arweiniad Uned Polisi a Phartneriaeth y Cyngor Sir, dilynwyd y camau isod i fwrw'r maen i'r wal:

- Yr Urdd yn adnabod yr ysgolion sy'n llai tebygol o gystadlu yn yr Eisteddfod yn ôl data'r blynyddoedd diweddar
- Cynnull grwp o swyddogion gwella'r Gymraeg (CSG), Swyddogion ieuenctid (CSG), Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion (CGC), Swyddogion Mentrau Iaith, Swyddog yr Egin, yr Atom a rhannu'r ysgolion rhwng y swyddogion hynny
- Creu canllaw i swyddogion i alluogi nhw i roi cymorth i'r ysgolion (gwybodaeth am gofrestru ayb)
- Dylunio taflen i ysgolion a theuluoedd yn tynnu sylw at y dyddiadau pwysig ac yn egluro ystod cystadlaethau'r Eisteddfod i bawb. Fersiwn Saesneg yn pwysleisio cystadlaethau i ddysgwyr. Y daflen yn cynnwys dolenni at ffurflenni cofrestru i deuluoedd ac at y rhestr cystadlaethau ar wefan yr Urdd
- Creu adnodd i ysgolion cyfrwng Saesneg a dwy ffrwd i'w hannog i gystadlu yn y cystadlaethau llefaru
- Swyddogion yn cysylltu gyda'r ysgolion o'r rhestr, yn ymweld gyda nhw ac yn cynnal prosiectau gyda nhw
- Ar ddiwedd y gwaith, tynnwyd lluniau proffesiynol o'r holl ymwneud o safbwynt y gwaith celf, y rowndiau rhagbrofol a rhanbarthol ayb i greu murlun i'w dangos yn yr Eisteddfod.

**Canlyniad**

Llwyddwyd cael 90% o ysgolion y Sir i gystadlu mewn rhyw gystadleuaeth yn yr Eisteddfod, a 100% o ysgolion uwchradd y Sir. Dyma'r ystadegau eraill a gasglwyd:

- **6,074** o blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn aelodau o'r Urdd, sef **15%** o holl aelodaeth Cymru.
- **1,480** yn fwy o aelodau yn Sir Gaerfyrddin nag mewn unrhyw sir arall yng Nghymru.
- Roedd **67** (allan o 110) o ysgolion o bob rhan o Sir Gaerfyrddin wedi cofrestru i gystadlu mewn cystadlaethau llwyfan eleni.
- Llwyddodd **46** o ysgolion Sir Gaerfyrddin i gyrraedd y llwyfan yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Roedd **1,750** o blant yn cystadlu yn rowndiau rhagbrofol yr Eisteddfod yn Sir Gaerfyrddin eleni.



E-boster marchnata / gwybodaeth am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd

**Dyfodol**

Rydym yn hynod o falch o'r cydweithio a wnaed gan gyrff y Fforwm ar gyfer yr her yma, ac er ei fod yn drwm o ran adnoddau dynol i gefnogi'r ysgolion yn y modd hwn, byddai'n braf gallu eu cefnogi i barhau i gystadlu yn y dyfodol. Efallai y byddai modd addasu'r daflen wybodaeth ar gyfer Eisteddfod y flwyddyn nesaf a'u gylchredeg o amgylch yr ysgolion. Byddai'n beth da gallu magu'r arfer o gymryd rhan yn yr ysgolion sy'n llai tebygol o gystadlu yn hanesyddol ac fe fyddai'n eu cynorthwyo nhw i fwrw targedau ieithyddol y bil addysg pe bai'n cael ei gymeradwyo.

## Cwynion a dderbyniwyd 2022/23

1. Cwyn ynghylch casglwr dyledion a'r defnydd o rybuddion uniaith Saesneg wrth ymdrin â'r cleientiaid. Roedd hwn yn wasanaeth a gomisiynwyd gan y Cyngor, ac felly, mae'r cwmni hefyd yn ddarostyngedig i'r Safonau.
2. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn nodi nad oedd modd iddo arddangos deunyddiau uniaith Saesneg yn llyfrgelloedd y Sir. Mae Safonau'r Cyngor yn nodi yn glir bod yn rhaid i unrhyw ddeunyddiau rydym yn arddangos ar ran eraill, fod yn ddwyieithog.
3. Cwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd adroddiadau penodol a drafodwyd gan Gabinet y Cyngor ar gael yn y Gymraeg fel rhan o'r papurau Democrataidd. Mae Ymchwiliad ar waith o ran y gwyn yma.
4. Cwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad ydy'r Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o weithrediad Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Sir, na'r ail Strategaeth Hybu. Esboniwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau a bod y ddogfennaeth yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd er mwyn ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr.
5. Cwyn ynghylch hunaniaeth Gymraeg y Cyngor Sir ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Roedd y gwyn yn cynnwys sylwadau am ein manylion cyswllt a'r defnydd o gyfeiriad e-bost Saesneg y Cyngor. Esboniwyd i'r achwynydd bod mwyafswm o lythrennau y gallwn ddefnyddio ar rai cyfryngau ond diweddarwyd pob elfen bosib.
6. Cwyn ynghylch diffyg ffurflen Gymraeg ar gyfer trefnu gwastraff clinigol. Esboniwyd i'r cwsmer fod y ffurflen ar gael drwy Fy Nghyfrif a danfonwyd y ddolen berthnasol.

# Dysgu Cymraeg a Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dysgu Cymraeg:**

Mae dysgu Cymraeg yn parhau i gael eu darparu yn rhithiol. Mae ein staff yn dysgu trwy un o'r dulliau isod:

- Cyrsiau rhithiol prif ffrwd ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith a ariannir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol
- Say Something in Welsh

Mae nifer o staff hefyd yn defnyddio dulliau mwy anffurfiol ar y cyd gydag un o'r llwybrau uchod, fel DuoLingo, Podlediadau a YouTube.

Mae yna nifer o gyfleoedd i staff ar unrhyw lefel o 0-5 i ddatblygu eu sgiliau iaith Cymraeg. Mae angen i ddysgwyr yn mynychu tua 120 awr dysgu i symud o un lefel i'r nesaf, ac mae ein staff yn ymrwymo i gyrsiau a phatrymau dysgu gwahanol. Mynychodd rhai ohonynt rhwng 2 a 4 awr yn wythnosol, ag yna rhai am wythnos ddwys neu ddysgu cyfunol sef cyfuniad o ddysgu ar-lein ag hunan astudio.

Er bod rhai staff wedi colli'r elfen o glywed yr iaith mewn amgylchedd gwaith o ganlyniad i weithio o adref, mae rhai dysgwyr yn cymryd mantais o fynychu clybiau siarad anffurfiol fel Clwb Clebran a digwyddiadau diwrnod Shwmae a Dydd Gŵyl Dewi.

Dyma niferoedd y staff sydd wedi cofrestru ar wahanol gyrsiau yn ystod 2022-2023. Nid yw'r ffigyrau o'r rhai sydd wedi cwblhau ar gael, gan fod cyrsiau nawr ar gael trwy gydol y flwyddyn.

| Cwrs Dysgu Cymraeg | Lefel disgwylir i gyrraedd ar ol y cwrs | Nifer sydd wedi cofrestru 22/23 |
|---|---|---|
| Croeso a Chroeso Nol | Lefel 1 | 43 |
| Mynediad | Lefel 2 | 52 |
| Mynediad hunan astudio | Lefel 2 | 25 |
| Sylfaen | Lefel 3 | 19 |
| Canolradd | Lefel 4 | 10 |
| Uwch | Lefel 5 | 1 |
| Cynllun Siarad | | 2 |
| Codi Hyder | | 8 |
| Gloywi | | 5 |
| Gloywi Hunan astudio | | 8 |
| **Cyfanswm:** | | 173 |

Tabl yn dangos cyrsiau dysgu Cymraeg

## Tiwtor Cymraeg Gwaith

Cafwyd cyllid eleni o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gyflogi tiwtor o Ionawr 2023. Mae'r tiwtor yn darparu sesiynau dysgu Cymraeg i staff y Cyngor yn benodol. Rydym eisoes wedi gweld ffrwyth gwaith y tiwtor. Darparwyd cyrsiau Mynediad, Sylfaen, canolradd a Chodi hyder, ac mae'r diddordeb wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae cael tiwtor penodol i'r gweithle hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ni i ddarparu yn wahanol ac yn benodol at anghenion y staff, ac mae potensial y swydd yn enfawr. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i adrodd ar yr holl weithgarwch newydd yma yn adroddiad 2023-24 ac i'r canlyniadau ymddangos yn glir yn y ffigurau ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd.

**Dysgu Drwy gyfrwng y Gymraeg**

**E-ddysgu (105)**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i'r system | 3 |
| Adroddiadau - Excel | 3 |
| Adroddiadau – Cyflwyniad | 3 |
| Adroddiadau ynghylch ymrwymiadau sydd angen sylw | 2 |
| Amser Stori Actif | 12 |
| Cyfle i Feddwl - Deall Iechyd Meddwl | 1 |
| Cyflwyniad i Gaffael | 4 |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 1 |
| Datgelu Camarfer | 5 |
| Deall Awtistiaeth | 2 |
| Diogelu Data (GDPR) | 17 |
| Diogelu Grŵp A | 1 |
| Hanfodion Craffu a Sgiliau Cwestiynu | 1 |
| Iechyd Meddwl yn y Gweithle | 10 |
| Iechyd Meddwl Yn y Gweithle (hyd at 071222) | 2 |
| Rôl y Llywodraethwr wrth Reoli Perfformiad y Pennaeth | 1 |
| Rheoli Amser | 2 |
| Rheoli Contractau | 2 |
| Safonau Ymddygiad yn y Gweithle | 6 |
| Sefydlu Gweithiwr Newydd | 6 |
| Sgiliau ar gyfer Chwaraeon | 4 |
| Ymwybyddiaeth Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | 1 |
| Ymwybyddiaeth Hylendid Bwyd | 5 |
| Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | 10 |
| Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | 1 |
| | 105 |

Tabl yn dangos niferoedd sydd wedi cwblhau e-fodiwlau yn Gymraeg


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cyrsiau a ddarparwyd yn Gymraeg

| | |
|---|---|
| Etiquette e-bost | 3 |
| Cyflwyniad i Teams | 7 |
| Rheoli o Bell | 22 |
| | 32 |

Tabl yn dangos nifer staff sydd wedi dilyn cyrsiau yn Gymraeg

Mewn ymdrech i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle, ac i fagu'r arfer i dderbyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, gwnaed mwy o ymdrech eleni i gynnal hyfforddiant rhithiol cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag e-fodiwlau. Er bod y niferoedd sydd wedi dilyn e-fodiwlau Cymraeg yn llai na llynedd, mae'r cyrsiau a ddarparwyd yn rhithiol yn ychwanegiad i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae hefyd yn bwysig nodi er nad yw'r cynnwys yn cael eu darparu mewn un iaith, mae llawer o gyrsiau yn cynnwys y Gymraeg ag yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawu pawb yn ddwyieithog ag yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bo angen.

O ran hyfforddiant i'r aelodau, mae'r adnoddau yn ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau mewn un iaith Gymraeg a rhai yn ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yng Nghymraeg a rhan yn Saesneg. Yn ogystal ar draws Dysgu a Datblygu cynigwyd grwpiau trafodaeth Cymraeg i'n staff yn ystod ymarferion gweithdai.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Sgiliau Iaith y Gweithlu

Rydym yn adrodd ar lefelau iaith fesul adran o fewn y Cyngor er mwyn ein cynorthwyo i ddadansoddi'r sefyllfa yn well. Byddwn yn parhau i adrodd yn y fformat yma er mwyn medru cymharu'r niferoedd a chynllunio ein blaen-raglen waith.

## Siarad

Data 2021-22

| Adran | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg a Phlant** | 161 | 362 | 224 | 154 | 93 | 269 | **1254** |
| **Amgylchedd** | 187 | 254 | 119 | 118 | 114 | 154 | **946** |
| **Cymunedau** | 110 | 830 | 325 | 246 | 180 | 316 | **2007** |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | 14 | 59 | 39 | 27 | 32 | 33 | **204** |
| **Prif Weithredwr** | 18 | 109 | 69 | 62 | 73 | 117 | **448** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 490 | 1614 | 776 | 607 | 492 | 880 | **4859** |

Tabl yn dangos sgiliau iaith y gweithlu llynedd

Dyma ddata eleni (2022-23) (heb gynnwys ysgolion Cynradd, Uwchradd, gwirfoddol, arbennig).
Noder fod yr Adran Amgylchedd wedi newid i'r Adran Lle ac Seilwaith yn ystod y flwyddyn a fod rhai staff wedi newid adran o ganlyniad i'r newid.

| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | (Dim cofnod) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg a Phlant** | 115 | 365 | 204 | 148 | 83 | 222 | 95 | 1232 |
| **Cymunedau** | 66 | 807 | 359 | 216 | 185 | 270 | 32 | 1935 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | 14 | 54 | 44 | 26 | 32 | 40 | 2 | 212 |
| **Lle ac Seilwaith** | 174 | 230 | 100 | 109 | 100 | 126 | 293 | 1132 |
| **Prif Weithredwr** | 13 | 120 | 55 | 54 | 68 | 120 | 14 | 444 |
| | | | | | | | | |
| **Grand Total** | **382** | **1576** | **762** | **553** | **468** | **778** | **436** | **4955** |

Tabl yn dangos sgiliau iaith y gweithlu eleni

Gwnaed gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn i symud staff oddi ar lefel 0. Gwnaed hyn drwy anfon holiadur allan at bawb ar lefel 0 gan ofyn iddyn nhw asesu eu sgiliau eu hunain. Cafwyd dros 100 o ymatebion i'r ymarfer hwn. Gwnaed cyfres o asesiadau iaith yn dilyn hyfforddiant a bu grŵp Mwy na Geiriau'n gwirio data'r Adran Gymunedau gan ganfod bod nifer sylweddol o staff ar lefel 0 na ddylai wedi bod yno.
Cynhaliwyd tua 120 o asesiadau iaith eleni ac mae gennym dros 100 yn llai heb ddim sgiliau Cymraeg eleni o ganlyniad a'r ffigwr honno'n 8% o'r gweithlu cyfan.

Mae canran nifer y staff ym mhob adran sy'n meddu ar sgiliau llafar Cymraeg lefel 3 neu uwch fel y ganlyn:

- 37% o staff yr adran Addysg a Phlant (4% yn llai na llynedd),
- 46% o'r adran Lle a Seilwaith (5% yn llai na llynedd),
- 35% o'r Adran Cymunedau, (2% yn llai na llynedd),
- 46% o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol (1% yn llai na llynedd) a
- 55% o Adran y Prif Weithredwr (1% yn llai na llynedd).

Mae 38% o holl weithlu'r Cyngor gyda sgiliau lefel 3 ac uwch, sy'n 3% yn llai na llynedd.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council